
Estyn

# Cyflwyniad i Broffiliau Arolygwyr



Mae gan y system Proffiliau Arolygydd y potensial i **wella defnyddio** arolygwyr cymbeiriaid ac arolygwyr ychwanegol wedi'u contractio gan Estyn yn y dyfodol trwy gofnodi gwybodaeth **gyfoes** am fedrau, profiad ac argaeledd.

Dros gyfnod, daw yn offeryn allweddol ym mbroses dendro Estyn ar gyfer arolygwyr cymbeiriaid wedi'u contractio a ddylai helpu i **leihau** faint o amser rydych yn ei dreulio yn gwyneud cais am gontractau.

Yn awr, mae'n rhaid i chi **greu** eich proffil arolygydd unigol, sydd â nifer o fanteision ac offer defnyddiol i'ch helpu i gynnal eich gwybodaeth bersonol.

**Bydd y proffil arolygydd yn cynnwys:**

- manylion personol a manylion cyswllt;
- manylion am hanes arolygiadau a graddau ansawdd cysylltiedig;
- rolau ac arbenigeddau;
- argaeledd a chyfraddau "yn ôl y gofyn";
- hanes hyfforddiant; a
- hepgoriadau / gwrthdaro buddiannau.

Byddwch yn gallu diwygio'r rhan fwyaf o'r wybodaeth/manylion uchod a holi yn eu cylch ar unrhyw adeg.

Bydd eich proffil hefyd yn cadarnhau eich rolau arolygydd a'r sectorau rydych yn gweithio ynddynt, eich statws a'ch arbenigeddau arolygydd cofrestredig.

Ychwanegiad defnyddiol arall at y proffil yw calendr a fydd yn galluogi i chi roi gwybod i ni p'un a fyddwch ar gael ar gyfer arolygiadau "yn ôl y gofyn". Bydd hyn yn cynorthwyo Estyn i wneud y gorau o'ch amser wrth eich defnyddio ar arolygiadau ar fyr rybudd. Cafodd hyn ei gyflwyno ar Bravo Solutions yn y gorffennol, ond byddwch yn awr yn gallu cyflwyno cyfraddau "yn ôl y gofyn" trwy eich proffil newydd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio Bravo Solutions fel y porth diogel ar gyfer tendrau tymhorol nes y bydd cam nesaf y proffiliau arolygydd yn cael ei ddatblygu.

Bydd rhif eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddangos ar eich proffil ac mae'n siŵr bod nawr yn amser da i atgoffa pawb na fydd arolygwyr yn cael eu defnyddio ar arolygiad heb wiriad manylach cyfredol/dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen y maes dyddiad geni oherwydd efallai y bydd angen i ni weld eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein, os ydych wedi ymuno â'r gwasanaeth diweddaru newydd.

Bydd arolygwyr cofrestredig yn gallu cael mynediad at wybodaeth ddethol o broffiliau eu tîm cyn ac yn ystod arolygiad, a bydd y proffiliau'n caniatáu i'n timau gweinyddol ddefnyddio'r wybodaeth i ddosbarthu arolygwyr yn fwy effeithiol.

# Beth mae angen i **chi** ei wneud?

**Gwirio'ch** holl fanylion personol a diweddaru'r rhain os ydynt yn anghywir. Bydd angen i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol. Er enghraifft, mae angen cyfeiriad e-bost dilys arnom i roi gwybod i chi am gontractau sydd ar y gweill, hyfforddiant, newyddion am arolygiadau neu ddiweddariadau pwysig eraill. Bydd eich cyfeiriad e-bost yn galluogi i chi fynd i'r ystafell arolygu rithwir a'ch proffil arolygydd.

**Lanlwythwch** lun diweddar ohonoch chi'ch hun. Bydd hyn yn cynorthwyo'r ACof i'ch adnabod chi pan fyddwch chi'n cymryd rhan mewn arolygiadau.

**Rhowch** eich rhif Statws Athro Cymwys/DES, h.y. eich rhif cyfeirnod athro (mae angen hyn fel rhan o'n prosesau sicrhau).

**Dylech gynnwys** pob enw perthnasol a ddefnyddir i'ch adnabod. Weithiau, nid yw arolygwyr yn defnyddio'r enwau llawn a restrwyd ar ein systemau i ddechrau, a gall hyn achosi dryswch – felly, rydym wedi ychwanegu blwch i chi restru unrhyw enwau ychwanegol a ddefnyddir i'ch adnabod.

**Gwnewch yn siŵr** fod unrhyw achos o wrthdaro buddiannau yn cael ei ddatgan, gan gynnwys manylion eich darparwr os ydych yn cael eich cyflogi mewn lleoliad addysg ar hyn o bryd.

Mae'n **eithriadol o bwysig** bod eich proffil yn cael ei **ddiweddaru**, yn enwedig os byddwch yn symud i rôl swydd arall neu os yw unrhyw un o'ch manylion wedi newid.

Gobeithio y bydd y system hon o fudd mawr i bob un ohonom, ond os oes gennych unrhyw ymholiadau, gallai **Llawlyfr y defnyddiwr ar Broffiliau Arolygwyr** a'r daflen holi ac ateb fod yn ddefnyddiol neu, fel arall, mae croeso i chi ddefnyddio'r ffurflen gyswllt ar eich proffil a bydd un o'r tîm yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.

**Nodwch:**


Bydd y proffiliau yn **disodli'r** proffiliau Arolygydd Cymheiriaid presennol.

Mae'r cyfarwyddiadau ar sut i fewngofnodi a'r canllawiau i ddefnyddwyr wedi'u hamlinellu **yn y ddogfen hon.**

# Sut i greu **eich proffil arolygydd**

1. Cliciwch y ddolen hon: https://vir.estyn.gov.uk/default.aspx

   Pan ffyddwh yn gweld y sgrin hon, cliciwch yn syml ar 'Ystafell Arolygu Rithwir'.




   Dylai ffenestr Diogelwch Windows ymddangos yn gofyn i chi am eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair**.** Dyma y dylech ei ddefnyddio fel eich enw defnyddiwr: Extranet*****  (***** yw eich rhif unigryw).
   Os ydych yn defnyddio **Chrome**, rhowch rif 5-digid yr enw defnyddiwr yn unig.





2. Yn yr Ystafell Arolygu Rhithwyr, cliciwch ar y botwm Proffiliau Arolygwyr




   Efallai y bydd y system yn gofyn i chi am eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair eto; os felly, ail-gofnodwch eich manylion.

3. Wedyn, dylech gael eich cyfeirio at y dudalen isod yn gofyn.



## Estyn Proffiliau Arolygydd

Er mwyn mewngofnodi i'ch proffil, mae cod mynediad un-tro wedi'i anfon i'ch cyfeiriad e-bost.
Cofnodwch y cod isod a thicio'r blwch* i sicrhau nad ofynnir i chi wneud hyn eto.

Cod Cyfrin Dilysu Dau Gam


Peidiwch â gofyn am god cyfrin eto ar y cyfrifiadur hwn ☐ **Gweler y nodiadau isod*

Mewngofnodi

Ailanfon yr e-bost

*Peidiwch ƒ thicio'r blwch hwn os ydych chi'n defnyddio cyfrifiadur sy'n cael ei rannu. Gellir defnyddio'r cod hwn ar un cyfrifiadur yn unig, h.y. bydd ticio'r blwch yn golygu na fydd cyfrifiaduron eraill wedi'u hawdurdodi, felly mae'n bosibl y bydd angen cod arall arnoch os byddwch yn mewngofnodi i ddyfais arall.

Bydd hyn yn cynhyrchu neges e-bost (yn cynnwys cod dilysu unigryw) a fydd yn cael ei hanfon at eich cyfeiriad e-bost.



From: Office Base  Sent: Thu 07/08/2014 09:12
To: Inspector Profiles
Cc:
Subject: Cod Mynediad Dilysu Dau Gam Proffiliau Arolygwyr Estyn / Estyn Inspector Profiles Two-Step Authentication Passcode

Annwyl Arolygydd,

Cod Mynediad Dilysu Proffiliau Arolygwyr Estyn

Mae ymgais newydd gael ei wneud i fewngofnodi ar wefan Proffil yr Arolygydd gan ddefnyddio eich Rhif Adnabod Defnyddiwr. Cysylltwch 'r adran gymorth ar unwaith os nad chi a wnaeth hyn.

Dear Inspector,


Estyn Inspector Profiles Authentication Passcode

An attempted logon to the Inspector Profile web site was just made using your User ID. Please contact support immediately if this was not made by you.

Teipiwch y cod hwn i mewn yn y blwch a chlicio ar ‘mewngofnodi’ neu ‘ok’ a dylech chi fod yn y system Proffiliau Arolygwyr nawr.

Rhowch y cod mynediad hwn i mewn ar y dudalen we a chliciwch Mewngofnodi.

**Byddwch yn gallu mynd i mewn i'ch proffil arolygydd personol nawr.**


Proffiliau Arolygydd Jerry Cann

| | | |
|---|---|---|
| Enw Llawn: | Jerry Cann | Golygu |
| Adnabod fel: | Jed | Golygu |
| Dyddiad geni: | 15 Ion 1984 | Golygu |
| Statws: | GWEITHREDOL | Hysbysu |
| Rhif COBAS: | 06413 | |

Golygu Llun

Cartref
Cyflogaeth
Rolau
Prisiau
Arbenigeddau
Hyfforddiant
Arolygiadau
Hepgoriadau
Argaeledd
Hanes Cyswllt

Manylion Cyswllt

| | | |
|---|---|---|
| Cyfeiriad Cartref: | 15 Apple tree farm<br>Abbey Lane<br>Rhoose<br>Vale of Glamorgan<br>CF54 OAT | Golygu |
| Rhif Ffôn Cartref: | 02920446523 | Golygu |
| Rhif Ffôn Symudol: | 07965231455 | Golygu |
| Rhif Ffôn mewn Argyfwng: | 07932568741 | Golygu |
| E-bost: | inspectorprofiles@estyn.gov.uk | Golygu |
| E-bost Arall: | Jhome1984@googlemail.com | Golygu |

Eich cyfrifoldeb chi fel arolygydd yw diweddaru'r wybodaeth hon a sicrhau bod y wybodaeth yn gofnod gwir.

Cyflogwr Presennol

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Enw'r darparwr |
| Cyfeiriad: | Meadow Street<br>Cardiff<br>Cardiff<br>CF24 5JW<br>Pendefigaeth y Deyrnas Unedig |
| Ffôn: | 02920 44 6987 |
| Awdurdod Lleol: | |
| Darparwr mewn categori? | Heb fod mewn categori |
| Ysgol Ffydd: | No |
| Rôl: | NVQ Assessor |
| Dyddiad Dechrau: | 28 Ebr 2014 |

Hanes Cyflogaeth

I gael rhagor o wybodaeth neu help i gwblhau eich proffil, **cliciwch yma** i fynd at y canllaw hyfforddiant Proffiliau Arolygwyr neu anfonwch neges e-bost i proffiliauarolygwyr@estyn.gov.uk.

# Cwestiynau ac **atebion**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r proffil arolygydd?** | Mae'r proffiliau yn galluogi arolygwyr i fynd at eu gwybodaeth bersonol a hanesyddol a gedwir ar ein systemau a byddant yn rhoi cyfle i arolygwyr wirio a diweddaru manylion yn ôl yr angen. Mae'n bwysig iawn bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n gyson gan ein bod yn dibynnu ar y wybodaeth i ddefnyddio arolygwyr yn effeithiol. |
| **Pwy sydd â phroffil?** | Bydd proffil personol gan bob arolygydd sy'n gweithio i Estyn. |
| **Beth yw mantais cael proffil?** | Bydd y proffiliau yn cynorthwyo â defnyddio arolygwyr yn gywir ar arolygiadau ac mae'n offeryn da ar gyfer rhannu gwybodaeth. Gall arolygwyr ddiweddaru eu gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd erbyn hyn. |
| **Sut ydw i'n dechrau llunio fy mhroffil?** | Defnyddiwch y cyfarwyddiadau a amlinellir yn y ddogfen hon i fynd at eich proffiliau.<br><br>I fynd at y proffiliau, cliciwch ar y ddolen gyswllt a ddarperir a bydd cyfrinair untro yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi'i gofrestru gydag Estyn. Os ydych wedi newid eich cyfeiriad e-bost a heb roi gwybod i Estyn, yna efallai na fyddwch yn gallu mynd at eich proffil. |
| **Gallaf ddiwygio rhai meysydd ar fy mhroffil yn unig, pam?** | Mae yna feysydd yn y proffiliau y bydd Estyn yn unig yn gallu eu diwygio fel hanes eich hyfforddiant, graddau, ac ati.<br><br>Byddwch yn gallu diwygio manylion fel eich cyfeiriad, manylion cyswllt, argaeledd, cyflogwr ac achos o wrthdaro buddiannau. |
| **Nid yw'r wybodaeth ar fy mhroffil yn hollol gywir, sut gallaf ei diwygio?** | Os nad yw eich gwybodaeth yn gywir ac nad ydych yn gallu diwygio'r rhan benodol honno o'r ffurflen, defnyddiwch y ffurflen gyswllt i gysylltu ag Estyn. |
| **A fydd arolygwyr eraill yn gallu gweld fy ngwybodaeth?** | Bydd staff gweinyddol Estyn yn gallu cael mynediad at broffiliau pob arolygydd. Bydd arolygwyr arweinol yn gallu mynd at broffiliau ei dîm cyn ac yn ystod arolygiad (heblaw at unrhyw wybodaeth ariannol neu bersonol yn ymwneud â phrisiau – er enghraifft, gwybodaeth am y contract yn ôl y gofyn, graddau arolygu, dyddiad geni, cyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref). |

# Cwestiynau ac **atebion**

| | |
|---|---|
| **A yw fy ngwybodaeth yn ddiogel?** | Ydy, mae'r holl wybodaeth bersonol yn ddiogel.<br><br>Fodd bynnag, os ydych yn credu bod eich diogelwch mewn perygl ar unrhyw adeg, yna rhowch wybod i Estyn ar unwaith. |

# Contract Estyn ar gyfer arolygu **“yn ôl y gofyn”**

Gallai fod adegau pan fydd angen i Arolygwyr Ychwanegol wedi’u Contractio neu Arolygwyr Lleyg lenwi bylchau yn rhaglen waith Estyn ar fyr rybudd. Efallai bydd hyn er mwyn disodli AEM neu Arolygydd Ychwanegol wedi’i Gontractio/Arolygydd Lleyg nad yw’n gallu mynychu arolygiad wedi’i gynllunio mwyach.

## Nod y contract “yn ôl y gofyn”

Rhoi opsiwn i Estyn alw ar Arolygwyr Cofnodol, Arolygwyr Tîm ac Arolygwyr Lleyg i ymgymryd â gweithgarwch arolygu dibynadwy ac o ansawdd uchel ar fyr rybudd i gyflawni gofynion arolygu ychwanegol annisgwyl*.

## Gofynion Estyn

Bydd Estyn yn gofyn i Arolygwyr Ychwanegol wedi’u Contractio ac Arolygwyr Lleyg roi cyfradd ddyddiol am eu gwasanaethau arolygu priodol i Estyn yn unol ag ystod o sectorau yn rhanbarthau daearyddol Cymru h.y.:

- lleoliadau meithrin nas cynhelir;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol; a
- sectorau ôl-16.

Bydd Estyn yn gofyn bod arolygwyr yn cyflwyno eu cyfraddau dyddiol, trwy eu proffil arolygydd, bob tymor. Bydd y cyfraddau hyn yn cael eu diogelu nes bod angen eu diweddaru eto.

## Sut i ymuno â’r contract “yn ôl y gofyn” trwy eich proffil arolygydd

- ***defnyddwyr newydd a phresennol y contract “yn ôl y gofyn”***

Mae Estyn yn gofyn bod defnyddwyr presennol y contract “yn ôl y gofyn” hefyd yn cyflwyno eu cyfraddau dyddiol ar gyfer tymor yr hydref trwy eu proffil arolygydd. Mae’r contract “yn ôl y gofyn” presennol yn dod i ben yn Rhagfyr 2014; fodd bynnag, gall Arolygwyr Ychwanegol wedi’u Contractio ac Arolygwyr Lleyg sy’n dymuno adnewyddu eu cyfraddau dyddiol wneud hynny nawr.

Dewiswch yr opsiwn **PRISIAU** ar y ddewislen ar dudalen eich proffil arolygydd i gofnod eich cyfraddau dyddiol.

Bydd y telerau a’r amodau contract safonol canlynol yn berthnasol i gontractau arolygu sy’n cael eu caffael trwy’r llwybr “yn ôl y gofyn”:

- Arolygydd Cofrestredig
- Arolygydd Ychwanegol/Lleyg
- Arolygydd Meithrin yn y Sector Nas Cynhelir

**Cartref**
**Cyflogaeth**
**Rolau**
**Prisiau**
**Arbenigeddau**
**Hyfforddiant**
**Arolygiadau**
**Hepgoriadau**
**Argaeledd**
**Hanes Cyswllt**

*Ni all Estyn warantu unrhyw waith arolygu
Bydd y system cyfraddau dyddiol yn cael ei defnyddio ar gyfer y gofynion arolygu ychwanegol annisgwyl hynny yn unig.